**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 20 o Chwefror 2024 am 19:00 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Is gadeirydd), Richard Robinson, Philip Roberts, Hefin Jones, Gwynedd Williams, Ann Lawton, Rhys Parry

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Berwyn Parry Jones, Beca Brown

**1262 I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Yn absenoldeb y Cynghorydd Meirwen Lloyd, Cadeirydd y Cyngor, cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cynghorydd Avril Jones (is-gadeirydd). Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd am bresenoldeb yr aelodau presennol.

**1263 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1264. Datgan buddiant personol.**

Eitem 1273

Y Cynghorydd Hefin Jones wedi datgan buddiant rhagfarnllyd ar gyfer cais am grant oddiwrth Eco'r Wyddfa, ar y sail ble byddai aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol yn dod i gasgliad rhesymol fod y buddiant personol mor arwyddocaol fel y gallai rhagfarnu'r penderfyniad.

**1265. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 16 Ionawr 2024**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1266. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug (Cyng Philip Roberts)**

Adroddiad Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned, Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug Chwefror 2024

1.Yn dilyn arolwg ym mis Tachwedd 2023 cyhoeddwyd adroddiad gan Estyn 25.1.24.

Prif canlyniadau :

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei seilio'n gadarn ar Gymreictod, lles disgyblion a chynnal safonau ,h.y. ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae'r arweinwyr eraill yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn cyflawni eu rolau'n ddeallus.

"Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn, ac maent yn ymdrin ag eraill gyda chwrteisi a pharch diymhongar".

Un argymhelliad gan Estyn : “Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol”

Gofynnir i’r Cyngor llongyfarch staff yr Ysgol am ei gwaith ardderchog sydd yn cael ei chydnabod yn yr adroddiad gan Estyn.

2. Hyfforddiant diweddar i lywodraethwyr

(a) Gweithdrefn Gormodedd 2023-24 (dim yn medru mynychu 17/2/24 ond wedi derbyn y cyflwyniad wedyn trwy e-bost).

(b) Llywodraethwr fel Ffrind Beirniadol ( wedi mynychu 7/2/24)

**Penderfynwyd:**

**a)** Derbyn diolch am yr adroddiad;
**b)** Y Clerc i ysgrifennu at yr Ysgol i’w llongyfarch ar yr adroddiad

**1267. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**1268. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor eu bod wedi cyfarfod ar 5 o Chwefror 2024. Ymysg y materion drafodwyd oedd

1) Adolygu’r rheoliadau ariannol – mae NALC a SLCC yn y broses o ddarparu rheoliadau newydd, felly yn aros tan mae rhain wedi eu cyhoeddi yna eu addasu ar gyfer Llanrug.
2) Dim wedi addasu’r gyllideb yn y cyfarfod diwethaf oherwydd nad oedd llawer o wariant nac incwm wedi bod. Cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar y 4ydd o Ebrill yn dilyn cau cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 / 2024
3) Argymell talu cyn fwyaf o bethau yn uniongyrchol drwy’r banc er sicrhau arbed costau banc a cynyddu ar effeithlonrwydd o sut rydym yn gweithredu. Byd Y clerc yn anfon ffurflen allan i ddarparwyr gwasanaeth / nwyddau ynghyd ac aelodau i ofyn am fanylion banc. Y gobaith yw bydd rhan fwyaf o daliadau’r cyngor yn cael eu gwneud yn y modd yma o hyn ymlaen.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn a diolch am yr adroddiad
b) Talu i hynny sydd yn bosib yn uniongyrchol i’w cyfrif banc

**1269. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**

Adroddodd y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor eu bod wedi cyfarfod ar 6ed o Chwefror ac ar 27 o Chwefror 2024 ac ymysg y materion a drafodwyd oedd

1. Sefydlu grŵp o aelodau'r cyngor ar 'What's App'. Nodwyd fod hyn eisoes wedi ei wneud gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones a diolchwyd iddo am drefnu hyn – hyn yn bwysig pan mae aelodau / clerc yn ymweld a safle neu berson er sicrhau fod y person yn ôl o'r cyfarfod yn ddiogel.

2. Fod asesiad risg gweithio yn unigol wedi ei gwblhau ac wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Bydd pob pwyllgor yn cael copi o hwn i'w gwblhau.

3. Fod angen creu asesiadau risg ar y canlynol

   a) Unigolion bygythiol / treisgar / blinderus;
   b) Maes parcio
   c) Cynllun Bwyd
   d) A tywydd anffafriol

   Adroddwyd ymhellach fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod a'r contractwr yn dilyn digwyddiad honedig yn y fynwent/

   Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn am gyflwr y gwair yn y lle parcio yn y fynwent yn dilyn angladd diweddar mewn tywydd gawr.

**Penderfynwyd**:

a) Derbyn a diolch am yr adroddiad;
b) Cyflwyno'r gwyn am y maes parcio yn y fynwent at Bwyllgor y Fynwent

**1270. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, cadeirydd Pwyllgor y Fynwent y canlynol

1.Cynghorydd Ann Lawton wedi sefyll i lawr fel is -gadeirydd ac aelod o'r is-bwyllgor. Diolch iddi hi am ei chyfraniad at waith ar y pwyllgor.

2.Mewn cyfarfod brys o'r pwyllgor 25.1.24. etholwyd y Cynghorydd Hefin Jones fel is- gadeirydd tan o leiaf 21 Mai 2024.

3.Cyfarfod brys o'r is-bwyllgor 25.1.24- trafodwyd gwariant ar waith iechyd a diogelwch yn y fynwent erbyn 31.3.24.. Penderfynwyd cysylltu gydag ymgymerwyr a seiri main lleol i weld os oes diddordeb i wneud gwaith o'r fath yn y fynwent. Cyfarfod i ystyried y cam nesaf ,nos Iau,29.2.24.

4. Cafwyd cyfarfod rhwng y Clerc, Cadeirydd y pwyllgor a'r contractwr torri gwair er mwyn casglu gwybodaeth am ddigwyddiad yn y fynwent ym mis Rhagfyr. Mae ei sylwadau wedi'i nodi.

5. Cynnal arbrawf gyda bin brown gwastraff gwyrdd (cyfnod o 2 mis).

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1271. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden ac Adnoddau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor eu bod wedi cyfarfod ar 25 o Ionawr 2024. Ymysg y materion drafodwyd oedd

Cymeradwyo gwaith o godi ac adnewyddu ffens ar gae chwarae Pwll Moelyn ac fod y gwaith wedi ei roi i gontractwr.

Adnabuwyd nod ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2024 / 2025 fel a ganlyn

a) parhau a'r gystadleuaeth Nadolig
b) Cario allan asesiad risg ar y caeau chwarae, yr offer ac offer y gampfa
c) Trefnu hyfforddiant ar y diffibriliwr
d) Rhoi rheolau fyny ar y caeau chwarae
e) Edrych fewn i'r posibilrwydd o greu mapiau digidol o'r ardal y clerc i gysylltu a cwmni sydd yn darparu system y fynwent
f) Ystyried darparu cysgodan bws
g) Ystyried offer ychwanegol i'r caeau chwarae

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1272. I gymeradwyo symud ymlaen i edrych fewn i'r posibilrwydd o ddarparu cysgodfa bws yn Llanrug**

Adroddwyd fod cais wedi dod i law yn gyntaf am gysgodfa bws ar safle bws Glyntwrog ac fod un arall wedi dod ar gyfer safle bws ger yr Ysgol Gynradd. Adroddwyd ymhellach fod y Cynghorydd Beca Bron a'r Clerc wedi cyfarfod a Swyddog o'r Adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i weld beth oedd y posibilrwydd a pa fath o loched bws byddai yn addas.

Nodwyd fod arian ddim yn caniatáu gosod dau loches bws eleni felly byddai angen ymgynghori i we ble mae'r galw mwyaf amdano, ac i wneud un cyn diwedd Mawrth 2024 a'r llall yn y flwyddyn ariannol 2024 / 2025.

**Penderfynwyd:**

a) Symud ymlaen a'r broses o osod un cysgodfa bws ar gyfer eleni;
b) Creu arolwg ar ble mae'r galw mwyaf ar hyn o bryd;
c) y Clerc i hysbysu hyn ar dudalen Facebook, Gwefan y Cyngor ac unrhyw leoliad arall.

**1273.** **Cais am gymorth ariannol – Y Sefydliad Coffa**
**Eco'r Wyddfa**

**Penderfynwyd: C**aniatáu grantiau ar gyfer yr uchod fel a nodir isod

Y Sefydliad Coffa - £2750
Eco'r Wyddfa - £900

**1274.** **Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

Dim